# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Chwefror 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

(09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Sesiwn dystiolaeth 21

(09:30 - 11:40) (Tudalennau 1 - 65)

**Llywodraeth Cymru**

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dave Williams, Cynghorydd y Prif Swyddog Meddygol ar Seiciatreg Plant a'r Glasoed

Albert Heaney, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Ruth Conway, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

*Bydd y Cadeirydd yn galw 10 munud o egwyl yn ystod y sesiwn dystiolaeth hon.*

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

CYPE(5)-06-18 - Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Gwybodaeth ychwanegol gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yn dilyn y cyfarfod ar 18 Ionawr** (Tudalen 66)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-06-18 – Papur i'w nodi 1 – Saesneg yn Unig

**3.2 Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** (Tudalen 67)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-06-18 – Papur i'w nodi 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(xi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod ac ar gyfer eitem 1 yn y cyfarfod ar 28 Chwefror.

## 5 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11:40 – 12:10)

## 6 Ymchwiliad i Dechrau'n Deg: allgymorth – trafod yr adroddiad drafft

(12:10 – 12:30) (Tudalennau 68 – 100)

**Dogfennau atodol:**

Dechrau'n Deg: allgymorth – Adroddiad drafft – Saesneg yn Unig

## 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12:30 – 13:00) (Tudalennau 101 – 106)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen Waith y Pwyllgor – Saesneg yn Unig

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Oddi wrth: Llywodraeth Cymru**
**Dyddiad: 15 Chwefror 2018**
**Lleoliad: Senedd Bae Caerdydd**
**Teitl: Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

## 1. CAMHS Arbenigol

**I ba raddau y mae gwasanaethau newydd (a/neu wasanaethau sydd wedi'u had-drefnu) yn helpu i leihau amseroedd aros o ran CAMHS arbenigol. A yw'r gwelliannau a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru o ran amseroedd aros ar gyfer gan CAMHS wedi'u bodloni.**

Mae datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol newydd, ar wahân, yn arbennig, wedi gwella amseroedd aros ar gyfer CAMHS arbenigol. Mae hyn yn golygu bod gan y bobl ifanc hynny sy'n aros am asesiad ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol wasanaeth nawr sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion, ond hefyd mae'r rhai sy'n aros am wasanaethau CAMHS arbenigol yn cael eu gweld yn gynt.

Mae'r camgymeriad o gynnwys pobl ifanc sy'n aros am wasanaethau eraill megis Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol mewn data CAMHS arbenigol yn golygu nad yw'n bosibl gwneud cymariaethau cyn mis Mawrth 2017. Llwyddodd byrddau iechyd i gyrraedd ein targed 28 diwrnod ar gyfer CAMHS ar lefel Cymru gyfan ym mis Mawrth 2017 a chyrhaeddodd tri Bwrdd Iechyd Lleol y targed ym mis Tachwedd 2017 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), er bod ffigur Cymru gyfan yn dangos cyflawniad o 45%. Serch hynny, roedd byrddau iechyd wedi gallu gweld 81% o'r rhai a oedd yn aros am wasanaethau CAMHS o fewn 12 wythnos ar lefel Cymru gyfan ym mis Tachwedd. Gan gydnabod bod angen gwneud mwy, rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd ac wedi darparu cyllid o £300,000 eleni er mwyn sicrhau bod perfformiad yn bodloni ein disgwyliadau erbyn mis Mawrth 2018.

**Beth y mae'r data yn ei ddweud wrthym am yr amrywiadau o ran arfer (mynediad teg) ledled Cymru ac atgyfeiriadau a mynediad at CAMHS gan Fyrddau Iechyd unigol, gan gynnwys y cyfyngiadau a'r trothwyon a osodir gan y gwasanaethau hyn.**

Un o flaenoriaethau cyntaf y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc oedd cynnal archwiliad amrywiad llinell sylfaen o CAMHS arbenigol i alluogi byrddau iechyd i nodi meysydd ar gyfer gwella gwasanaethau lleol, targedu adnoddau ychwanegol mewn meysydd mawr eu heffaith a rhoi'r arferion da sydd eisoes yn bodoli ar waith mewn rhai ardaloedd. Arweiniodd hyn at ddatblygu Fframwaith Gwella CAMHS Arbenigol i helpu byrddau iechyd i gyrraedd safonau a chyflawni canlyniadau cyson ledled Cymru. Mae'r Fframwaith yn rhoi diffiniad clir o rôl CAMHS arbenigol, ynghyd â'r ystod o asiantaethau a all gael mynediad iddo sydd wedi'u rhestru mewn model pwyntiau mynediad. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond mae'n gosod safon ar gyfer mabwysiadu'r fframwaith sy'n hyrwyddo cysondeb ar draws byrddau iechyd ac yn sicrhau model gofal mwy cyflawn na dim ond ymyriadau uniongyrchol mewn clinigau.

**I ba raddau y mae newidiadau wedi mynd i'r afael â gorgyfeirio plant a phobl ifanc i CAMHS.**

Roedd meincnodi CAMHS Arbenigol ar gyfer y DU gyfan yn 2016, a oedd yn cynnwys holl wasanaethau CAMHS Cymru, yn dangos bod tua thraean o'r atgyfeiriadau naill ai'n amhriodol neu na fyddent yn bodloni trothwyon gwasanaeth arbenigol.

Gwelwyd tuedd at i lawr - gan gymharu ffigurau ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau seiciatreg plant a phobl ifanc ar StatsCymru[1] ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2016, roedd cleifion sy'n aros bob mis yn amrywio o 2,092 ar ei isaf i 2,907 ar ei uchaf. Yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Tachwedd 2017 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) yr amrediad oedd 588 i 1,049.

Disgwyliwn i'r set nesaf o ddata meincnodi ar gyfer 2017 adlewyrchu gwelliant pellach yn nata Cymru. Un o'r rhesymau allweddol dros hyn fydd datblygu timau amlddisgyblaeth newydd i asesu, gwneud diagnosis a thrin cyflyrau niwroddatblygiadol, sydd wedi cyfrif am nifer sylweddol o atgyfeiriadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Un o'r prif ffactorau o ran mynd i'r afael â'r mater hwn yn yr hirdymor yw meithrin gallu ymysg y gweithwyr proffesiynol a'r gwirfoddolwyr hynny sy'n gweithio gyda phlant o ddydd i ddydd. Mae ffrwd datblygu'r gweithlu y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn datblygu fframwaith i gynorthwyo yn hyn o beth, wedi'i ategu gan ffocws newydd ar hyfforddiant fel swyddogaeth allweddol timau gofal sylfaenol lleol ar gyfer plant.

**A yw'r newidiadau wedi helpu i wella gallu CAMHS arbenigol i ymateb y tu allan i oriau ac mewn argyfwng; a yw gofal y tu allan i oriau yn gweithio'n effeithiol, ac yn edrych yn benodol ar anghenion y plant a phobl ifanc hynny sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai ac yn cael eu hasesu yno.**

Roedd £2.7 miliwn o'r buddsoddiad CAMHS newydd yn arian ar gyfer sefydlu a chynnal timau argyfwng CAMHS. Mae'r timau ar gael i fynd i'r afael â phobl ifanc sy'n cysylltu â hwy mewn argyfwng ar gyfnodau brig ac mae'n gweithio oriau estynedig yn ystod yr wythnos ac mae hefyd ar gael ar benwythnosau. Mae'r timau hyn bellach yn gweithredu ledled Cymru. Y tu allan i oriau gweithredol, dylai fod gan bob gwasanaeth brotocolau manwl gyda gwasanaethau cyswllt seiciatrig i oedolion er mwyn rheoli pobl ifanc sy'n cysylltu â hwy mewn argyfwng. Bydd hyn hefyd yn cynnwys argaeledd clinigwyr CAMHS sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu ymgynghoriad dros y ffôn, gwasanaeth cyswllt a chyngor.

Sefydlu'r timau oedd y flaenoriaeth gyntaf; bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar sut y maent yn darparu gwasanaeth mwy cyson ar draws Cymru gyfan yn ystod y cyfnodau brig hyn. Mae tystiolaeth bod y timau argyfwng wedi arwain at leihau nifer yr arosiadau mewnol i blant yng Nghymru a lleihad mewn gwelyau pediatrig.

**A oes digon o gapasiti ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru**

---

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/Referrals/referrals-by-treatmentfunction-month

O ganlyniad i'r £42 miliwn a fuddsoddir mewn darpariaeth CAMHS bwrpasol ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru mae gennym 27 o welyau yng Nghymru, 12 yn y Gogledd a 15 gwely ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion[2] wedi cynnig mesur procsi o'r nifer briodol o welyau, sef rhwng 2 a 4 gwely fesul 100,000 o boblogaeth. Yng Nghymru mae gennym 4.3 gwely fesul 100,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed. Y gymhareb gyfartalog ar gyfer Lloegr yw 2.5. Rydym yn disgwyl, lle bynnag y bo'n bosibl, y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i berson ifanc yng Nghymru yn un o'r ddwy uned yn hytrach na'i anfon allan o'r ardal. Ym mis Tachwedd 2017 dim ond 12 o bobl ifanc a gafodd driniaeth y tu allan i Gymru, yn is na'r targed cenedlaethol o 14. Serch hynny, bydd achosion ble y bydd angen i berson ifanc, am amryw resymau, gael ei leoli yn Lloegr mewn uned arbenigol sy'n aml yn darparu gwasanaeth ar gyfer y DU gyfan. Mae gwelliannau yn y modelau gofal rhwng CAMHS cleifion mewnol a CAMHS lleol wedi lleihau hyd yr arosiadau ac wedi gwella'r cydweithio rhwng gwasanaethau.

## 2. Cyllid

**Gwariant blynyddol ar CAMHS mewn termau arian parod ac fel canran o'r gwariant cyffredinol ar iechyd meddwl, yn ôl Bwrdd Iechyd lleol**

Mae StatsCymru[3] yn darparu gwybodaeth am gyllid iechyd, y gellir ei dadgyfuno yn ôl bwrdd iechyd. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2015-16 yn dangos gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed o £45.8 miliwn (cynnydd o gymharu â £41.3 miliwn yn y flwyddyn flaenorol) sy'n cynrychioli saith y cant o gyfanswm gwariant iechyd meddwl o £683 miliwn yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd y byddai gwasanaethau i blant a phobl ifanc hefyd wedi cael eu cyflwyno a'u cofnodi'n ariannol yn llinell 'salwch meddwl cyffredinol' y gyllideb a llinell 'problemau iechyd meddwl' eraill y gyllideb sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am £424 miliwn yn ystod y cyfnod. At hynny, mae'n anghywir cymharu gwariant ar blant a phobl ifanc â'r gwariant ar gyfer oedolion. Mae natur salwch meddwl ymysg oedolion yn dueddol o fod yn fwy parhaol a difrifol, ac mae angen triniaeth ddwys mewn ysbyty yn aml ar gyfer y cyflyrau hyn. Mae'r rhan fwyaf o salwch meddwl plant yn cael ei drin yn y gymuned neu mewn clinigau cleifion allanol a thrwy sefydlu timau triniaeth gymunedol, mae hyn yn golygu mai ysbytai yw'r dewis olaf bellach.

Ers 2015-16 rydym wedi buddsoddi bron i £8 miliwn o arian ychwanegol yn CAMHS. Cyhoeddwyd £1.4 miliwn arall, ar y cyd o'r cyllidebau Iechyd ac Addysg, i sicrhau bod ymarferwyr CAMHS yn gweithredu mewn ysgolion fel cynllun peilot tan 2020.

O 2018-19 bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £1.1 miliwn arall yn rheolaidd yn CAMHS i gefnogi gwelliannau pellach.

**I ba raddau y mae mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer pobl ifanc wedi gwella. A fu gostyngiad dilynol yn y defnydd o feddyginiaeth ar gyfer pobl ifanc; a sut y mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio i wella'r**

[2] Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS) Tier 4 Report, NHS England, 2014: https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2014/07/camhs-tier-4-rep.pdf gan ddyfynnu tystiolaeth o'r Care Services Improvement Partnership 2007 a Cotgrove et al, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2004.

[3] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget/nhsexpenditure-by-budgetcategory-year

**ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol**

Nid oes gennym ddata ar ragnodi meddyginiaeth i bobl ifanc yng ngwasanaethau CAMHS. Bydd angen meddyginiaeth bob amser yn unol ag arfer gorau clinigol, ond dylai hyn fod yn rhan o ddull triniaeth gyfan sy'n gweithio ar y cyd â therapïau siarad hefyd. Yn hyn o beth, mae CAMHS arbenigol wedi darparu swm sylweddol o ymyriadau therapiwtig seicolegol. Mae byrddau iechyd wedi defnyddio £1.9 miliwn o'n buddsoddiad CAMHS newydd i recriwtio 41 o staff cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol i ddarparu a chefnogi'r ddarpariaeth o ymyriadau seicolegol mewn gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd.

Ers mis Ebrill 2015 pan gafodd casglu data ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol a gyflwynwyd o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) ei dadgyfuno ar draws yr ystod oedran mae mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc wedi'u gweld gan eu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol; ac rydym yn gweithio i sicrhau bod gofal iechyd meddwl sylfaenol a CAMHS arbenigol yn gweithio gyda'n gilydd yn ddi-dor ac yn effeithiol i ddarparu therapïau seicolegol. Daethpwyd â grŵp arbenigol o ymarferwyr CAMHS ynghyd i ddatblygu'r dystiolaeth a'r canllawiau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio ymyriadau seicolegol a modelau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae bellach wedi cael ei gynnwys yn ffurfiol o dan ymbarél gwaith MATRICs Cymru.

**I ba raddau y mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, er enghraifft, plant sydd mewn gofal, plant a phobl ifanc ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac anhwylderau sbectrwm awtistig (ASD), a'r rhai sydd mewn perygl neu sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid neu'n wynebu risg o fynd i mewn i'r system, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cadw dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.**

O ran unrhyw blentyn sy'n dioddef o broblemau iechyd emosiynol neu iechyd meddwl, dylai gweithiwr proffesiynol priodol ymdrin ag ef yn brydlon, waeth beth fo'i amgylchiadau personol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw modelau presennol bob amser wedi gweithio er budd grwpiau penodol, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi £2 filiwn bob blwyddyn i sefydlu a chynnal timau Niwroddatblygiadol ymroddedig ar gyfer pobl ifanc ag ADHD/ASD. Rydym hefyd wedi cyflwyno targed amser aros 26 wythnos (o atgyfeirio i'r apwyntiad cyntaf) ar gyfer y bobl ifanc hyn ac rydym wrthi'n ei dreialu cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol yn ddiweddarach yn 2018. Mae llwybr asesu unigol, ledled Cymru hefyd wedi'i ddatblygu i sicrhau cysondeb a gwneud y system yn llawer cliriach i deuluoedd.

I'r rhai sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, rhoesom £250,000 o'n buddsoddiad CAMHS i wella darpariaeth a chymorth i Dimau Troseddau Ieuenctid. Mae'r arian wedi ein galluogi i ehangu Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS) drwy recriwtio 4 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu llwybr atgyfeirio Cymru gyfan a chanllawiau ategol ar gyfer byrddau iechyd a Thimau Troseddau Ieuenctid i hyrwyddo cysondeb a chyd-ddealltwriaeth o ba gefnogaeth a ddylai fod ar gael i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru, a gyflwynwyd yn 2015, hefyd wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol gan na chafodd unrhyw blentyn na pherson ifanc yng Nghymru ei gadw yn nalfa'r heddlu fel man diogel o dan a.136 ers 2016. Mae'r gofynion cyfreithiol newydd a wnaed gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 sy'n golygu y dylai swyddogion yr heddlu ymgynghori â gweithiwr iechyd proffesiynol lle y bo'n ymarferol cyn defnyddio pwerau a.136 yn rhoi rhagor o gyfleoedd i sicrhau cymorth a llwybrau gofal i blant a phobl ifanc heb ddefnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

**Effeithiolrwydd y trefniadau cynllunio a chomisiynu presennol i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n datblygu arwyddion cynnar o salwch meddwl difrifol, fel seicosis.**

Buddsoddwyd £800,000 o'n buddsoddiad CAMHS newydd ers 2015-16 mewn datblygu timau Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis i gefnogi pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed gyda'r pwl cyntaf o seicosis a seicosis cynnar. Mae byrddau iechyd wedi nodi problemau o ran symud yr agenda hon yn ei blaen. Rydym yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi datblygiad timau Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis ac wedi sefydlu cymuned ymarfer i edrych ar ddatblygu gwasanaethau cyson ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys archwilio ymyriadau gwasanaeth a chasglu data llinell sylfaen gyda'r bwriad o ddatblygu targedau gwella yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys canfod ac ymgysylltu'n briodol a phrydlon, gyda'r bwriad y bydd pob atgyfeiriad yn dechrau cael ei asesu o fewn 48 awr; darparu cynllun gofal a thriniaeth o fewn 14 diwrnod o'r asesiad - gan ganolbwyntio ar gynyddu canlyniadau gweithredol / adferiad cymdeithasol / iechyd a lles corfforol; cynyddu'r ddarpariaeth o ymyriadau seicolegol a argymhellir gan NICE; a mwy o ymgysylltiad a boddhad gan ddefnyddwyr a gofalwyr. Rwy'n ystyried y gwaith hwn yn flaenoriaeth yn ystod 2018.

## 3. Pontio i Wasanaethau Oedolion

**Pa mor dda y mae'r broses o bontio i wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael ei chynllunio a'i reoli**

Dywedodd y bobl ifanc eu hunain wrthym yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda hwy fel rhan o ddatblygu'r canllawiau pontio newydd fod y trefniadau pontio wedi'u cynllunio a'u rheoli'n wael yn y gorffennol. Dyna pam y datblygodd ac y cyhoeddodd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ganllawiau newydd yn ystod haf 2017, a oedd yn cynnwys pasbort am ddim ar gyfer person ifanc sy'n ei roi wrth wraidd y broses.

Nod y canllawiau a'r pasbort yw ceisio symud y pwyslais o adeg bontio fympwyol sy'n gysylltiedig ag oedran a chanolbwyntio yn hytrach ar yr hyn sydd fwyaf buddiol i'r person ifanc. Os yw hynny'n golygu bod CAMHS yn parhau i ddarparu gofal a chymorth y tu hwnt i ddeunaw oed, neu os yw gwasanaethau oedolion yn ymdrin â phobl ifanc cyn eu bod yn ddeunaw oed yna felly y bo, ar yr amod mai dyma'r gwasanaethau sydd yn sefyllfa orau i ddarparu'r gofal sydd ei angen. Mae'r canllawiau hefyd yn ceisio pennu strwythur a threfniadau llywodraethu ar gyfer y broses fel y gall CAMHS a gwasanaethau oedolion gydweithio'n agosach, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, a bod yna fecanwaith i fonitro, adolygu a dysgu o bob proses bontio.

Er bod y canllawiau wedi cael croeso cynnes gan ymarferwyr, rheolwyr a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd, mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith. Rwyf wedi gofyn i

effaith y canllawiau newydd gael ei hadolygu erbyn mis Rhagfyr 2020. Byddwn yn disgwyl i hyn fod yn rhan o drefniadau etifeddiaeth Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'i ymgorffori yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd ar gyfer Datblygiadau iechyd meddwl mewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau CAMHS.

## 4. Cysylltiadau ag Addysg (deallusrwydd emosiynol a dulliau ymdopi iach)

**Y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn fwy gwydn ac yn gallu mynd i'r afael â lles meddyliol gwael yn well pan fo'n digwydd, gan gynnwys:**

- **Datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fel rhan o'r cwricwlwm newydd**

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn tynnu sylw at y ffaith bod "angen i blant a phobl ifanc brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn ffynnu a llwyddo yn eu haddysg". Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus sy'n "*meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi*". Bydd y pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd a dyma'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad sy'n ymwneud â'i ddatblygiad. Felly, mae lles meddyliol ac emosiynol dysgwyr yn cael ei ystyried ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae gweithgor y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles wedi ystyried rôl lles meddyliol ac emosiynol y Maes yn fanwl, gan weithio gydag ystod o randdeiliaid ac arbenigwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth ac ymddygiad positif yn y maes hwn.

Mae gweithgor y Maes Dysgu a Phrofiad yn cydnabod pwysigrwydd datblygu Maes Dysgu a Phrofiad sy'n cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â'u lles meddyliol a'u lles emosiynol eu hunain, yn ogystal â deall y dylanwadau ehangach ar iechyd a lles a'r materion y mae'r rhain yn eu codi yng nghyd-destun unigolion a chymdeithas gyfan.

Bydd ysgolion arloesi hefyd yn ystyried sut y mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc. Er bod y cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol ymysg dysgwyr yn fater ehangach, sy'n ddibynnol iawn ar ddull gweithredu ysgol gyfan. Drwy ein buddsoddiad yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a'r seilwaith data sy'n cyd-fynd ag ef, caiff data eu casglu i asesu lles mewn ysgolion ac i asesu pwysigrwydd amgylchedd yr ysgol.

- **Mynediad plant at nyrsys ysgol a'r rôl y gall nyrsys ysgol ei chwarae wrth ddatblygu gwytnwch a chefnogi lles emosiynol.**

Lansiwyd Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Mai 2017. Nod y fframwaith hwn yw darparu gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion i blant a phobl ifanc sy'n wasanaeth diogel, hygyrch ac o safon uchel. Mae'n estyniad o'r ddogfen flaenorol 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru' (Llywodraeth Cymru, 2009) sy'n adeiladu ar y fframwaith ac yn ymgorffori ethos Rhaglen Plant Iach Cymru, Adeiladu Dyfodol Gwell: Y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015),

astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru (ACE) (2015) ac egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Un o brif elfennau'r fframwaith yw 'Safon Cymru Gyfan ar gyfer hyrwyddo lles emosiynol a chefnogi anghenion iechyd meddwl plant oedran ysgol. Gan gydweithio ar draws y meysydd iechyd ac addysg ac ymateb i anghenion plant, a thrwy Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, y Fframwaith Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion a dysgu oddi wrth gynllun mewngymorth CAMHS, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at adeiladu'n rhagweithiol ar y gwasanaeth nyrsio presennol mewn ysgolion ac ymestyn arfer da i bob plentyn a pherson ifanc oedran ysgol yng Nghymru.

- **I ba raddau y mae gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, anelu at atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf honno hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Maent yn golygu bod partneriaid gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant.

Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n darparu ar gyfer saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar sail ôl troed y byrddau iechyd i hyrwyddo'r integreiddio hwnnw er mwyn gwella lles pobl. Rhaid i fyrddau rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â sawl maes, gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Roedd Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau rhanbarthol gynhyrchu asesiadau poblogaeth o anghenion gofal a chymorth a gyhoeddwyd fis Ebrill diwethaf. Roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, ac iechyd meddwl fel themâu craidd. Erbyn hyn, mae'r Byrddau yn cynhyrchu cynlluniau ardal, sydd i'w cyflwyno ym mis Ebrill, i ymateb i'r asesiadau poblogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi hwyluso rhaglenni penodol neu gynlluniau peilot yn seiliedig ar gydweithio:

1. <u>Cynllun Peilot Mewngymorth CAMHS</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen newydd o fewngymorth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion. Bydd cyllid ar y cyd o'r meysydd iechyd ac addysg yn cryfhau'r gefnogaeth gan CAMHS arbenigol i ysgolion ac yn sicrhau bod systemau ar waith i rannu gwybodaeth briodol rhwng CAMHS ac ysgolion ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth mwy dwys. Bydd ffocws penodol ar adnabod ac ymyrryd yn gynnar.

Mae ymarferwyr CAMHS penodol (gweithwyr cyswllt) yn cael eu recriwtio i weithio gydag ysgolion peilot mewn tair ardal ledled Cymru. Mae cydlynydd cenedlaethol hefyd yn cael ei benodi, i rannu arferion da a mapio'r gweithgaredd sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru. Mae byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n recriwtio i'r rolau hyn.

Bydd y cynlluniau peilot yn cychwyn yng ngwanwyn 2018 (ar ôl recriwtio) a byddant yn dod i ben yn haf 2020 gan sicrhau eu bod yn cwmpasu dwy flwyddyn academaidd lawn.  Byddant yn cyrraedd 36 o ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo (220), lle bydd y ffocws ar ddisgyblion blwyddyn 6 i'w helpu wrth iddynt bontio.

Lle mae angen cymorth mwy arbenigol ar blant a phobl ifanc, dylai'r peilot helpu i hwyluso'r atgyfeiriadau hynny rhwng ysgolion a gwasanaethau arbenigol.

Bydd y peilot yn cael ei werthuso a bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn helpu i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol. Mae'r fanyleb werthuso wedi'i llunio a chynhelir gweithdy ar ôl i'r gweithwyr cyswllt a'r cydlynydd cenedlaethol benderfynu sut mae'r cynllun peilot i fod i gyflawni canlyniadau, gan edrych ar y berthynas rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, canlyniadau ac effeithiau. Bydd y contractwr sy'n arwain y gwerthusiad yn darparu diweddariadau rheolaidd i alluogi arfer da a gwersi i gael eu rhannu.

2. Canolfan ar gyfer Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE)

Ymunodd Adran Addysg, Cymunedau a Phlant ac Adran Iechyd Llywodraeth Cymru ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydariannu Canolfan Gymorth ACE a sefydlwyd gan Cymru Well Wales. Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar yr ymchwydd o ddiddordeb sydd wedi deillio o gyhoeddi ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n amlinellu effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs).

Gweledigaeth y Ganolfan yw lleihau nifer y profiadau niweidiol y bydd pobl yn eu cael yng Nghymru, ac i feithrin gwydnwch y rhai sydd eisoes wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.  Yn y bôn, dylai'r Ganolfan fod yn ganolfan arbenigedd i gynyddu dealltwriaeth o ACEs, yn ogystal â chefnogi ac ysbrydoli unigolion, cymunedau a sefydliadau i ddysgu am ACEs a newid y ffordd y maent yn meddwl ac yn ymddwyn.

3. Teuluoedd yn Gyntaf

Mae llwyddiant gwasanaethau cymorth i deuluoedd, fel y rhai a ddarperir drwy Teuluoedd yn Gyntaf, yn dibynnu ar ystod o bartneriaid allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i nodi a mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd a phobl ifanc cyn gynted â phosibl.

Mae'r Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017, yn rhoi disgwyliadau clir ar dimau lleol Teuluoedd yn Gyntaf mewn perthynas â datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol gydag ystod o wasanaethau, gan gynnwys asiantaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Yn ychwanegol at hyn, drwy'r dull Tîm o Amgylch y Teulu, mae teuluoedd sy'n agored i niwed yn cael cefnogaeth amlasiantaeth gadarn sydd wedi'i  theilwra i'w hanghenion.

4. Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Mae gwasanaethau iechyd ac addysg yn gweithio mewn partneriaethau i ddarparu cynlluniau ysgolion iach lleol ym mhob rhan o Gymru fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Mae'r cynllun yn mynd ati i hyrwyddo, gwarchod ac

ymgorffori iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei gymuned drwy gamau gweithredu cadarnhaol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian a chanllawiau i helpu gwasanaethau iechyd ac addysg sy'n gweithio mewn partneriaethau i sefydlu a rhedeg cynlluniau ysgolion iach lleol ym mhob rhan o Gymru. Mae dros 99% o ysgolion yn cymryd rhan weithgar mewn cynlluniau ysgolion iach lleol.

Cyhoeddwyd dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Cenedlaethol y Cynllun Ysgolion Iach, i'w hasesu ar ddiwedd cyfnod 6, yn 2010 ac maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r dangosyddion hyn yn chwilio am ddull ysgol gyfan o ymdrin â nifer o bynciau iechyd, gan gynnwys iechyd a lles meddyliol ac emosiynol.

5. Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant

Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant er mwyn gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a nodi pa ymyriadau cynnar a chamau ataliol y gellid eu cymryd i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal.

Mae'r grŵp, dan gadeiryddiaeth David Melding AC, yn cynnwys uwch swyddogion o bob rhan o lywodraeth leol, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru, ac mae ganddo gylch gwaith polisi sy'n cwmpasu tai, iechyd, addysg, cyfiawnder ieuenctid a threchu tlodi. Ar hyn o bryd, mae rhaglen waith y Grŵp yn cynnwys 27 o feysydd gwaith sy'n cwmpasu ymchwil, prosiectau peilot, datblygiadau polisi a gwelliannau i ymarfer proffesiynol. Drwy ei ddull traws-sectoraidd, mae'r Grŵp yn edrych ar ffyrdd o gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn well i fod yn fwy gwydn a sicrhau canlyniadau gwell. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag effaith ACEs drwy ddarparu cymorth therapiwtig gwell.

6. Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc

Mae'r rhaglen dan arweiniad y GIG yn ymwneud â sicrhau bod y system bresennol yn gweithio'n fwy effeithiol ar draws pob sector, nid dim ond gwasanaethau GIG arbenigol. Bydd y Rhaglen yn parhau tan fis Hydref 2019 ac mae wedi sefydlu ffrydiau gwaith i ystyried y materion allweddol a amlygwyd gan randdeiliaid fel y meysydd i'w datblygu.

Un o'r blaenoriaethau yw lleihau atgyfeiriadau CAMHS amhriodol. Dangosodd y broses feincnodi CAMHS ar draws y DU yn 2016 fod traean o'r holl atgyfeiriadau i CAMHS yn amhriodol. Bydd ehangu gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol newydd a rhoi grym i eraill sydd â chysylltiad â phlant yn golygu na fydd angen atgyfeirio llawer o bobl ifanc â chyflyrau lefel isel at wasanaethau CAMHS arbenigol.

Mae Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi argymell gwella gwasanaethau cymorth iechyd meddwl gofal sylfaenol lleol, gan sicrhau eu bod ar gael i wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol, ac nid dim ond i wasanaethau gofal sylfaenol o dan fesur iechyd meddwl 2011. Mae hyn yn adeiladu ar y modelau rhagorol sydd eisoes yn bodoli ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Y bwriad yw y bydd buddsoddiadau newydd mewn CAMHS yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth hwn.

**Faint o wasanaethau cymorth lefel is ac ymyrraeth gynnar a ddarperir ar hyn o bryd a faint sy'n eu defnyddio, er enghraifft, gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.**

Cwnsela

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, ac i ddarparu gwybodaeth ddienw am eu gwasanaethau cwnsela i Lywodraeth Cymru.

Y data diweddaraf a gyhoeddwyd yw'r rhai ar gyfer y flwyddyn hyd at Awst 2016, ac maent yn dangos bod 11,337 o blant neu bobl ifanc wedi cael gwasanaethau cwnsela yn 2015/16.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee
Ymchwiliad i Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Gwybodaeth Bellach | Inquiry into The Emotional and Mental Health of Children and Young People – Further Information
EMH FI 10
Ymateb gan: Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Response from: Royal College of Nursing

Further information from the Royal College of nursing following the meeting on 18 January

Provision of school counselling services to young school-aged children

The Royal College of Nursing does not have a formal position on the provision of counselling services to young school-aged children. However, the Committee may like to be aware of some research conducted by Place2Be which assessed whether individual or group therapeutic intervention has a positive influence on children's social and emotional wellbeing. The overall findings were positive and found that young children did benefit from interventions. More detail on the study can be found here - http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/14733140903031432 (Please note that this study covered England and Scotland only).

It is worth noting that interventions for young school-aged children do not necessarily have to be in the form of formal 1 to 1 counselling, but can be in family or group therapy sessions, or in the form of play and art therapy.

Two guidance documents

- Good Transition Guidance for professionals
- Young Person's Transition Passport

Development of hybrid roles e.g. hybrid psychiatric nurse-social worker

Again, the Royal College of Nursing does not have a formal position on the development of hybrid roles such as the psychiatric nurse-social worker. As stated in the evidence session, bringing a broad range of skills to the team is important, and ensuring that education and health organisations have access to advice and expertise from social workers. The Royal College of Nursing would strongly advocate for Registered Nurses who working with children to have access to Continuing Professional Development (CPD) which is integrated with social work some areas. This would enable shared learning experiences which could be mutually beneficial to both post-registration nurses and social workers. It can also be of benefit to have input from social workers at Board level within Health Boards to enable a sharing of expertise and approaches to meeting the needs of children and young people.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant,

Pobl Ifanc ac Addysg

5 Chwefror 2018

Annwyl Lynne,

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**


Heddiw, fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad,'**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**' a hynny'n dilyn ei ymchwiliad i **Wytnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit**.

Mae adran 3 o'r adroddiad yn ymwneud â pharodrwydd gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys addysg uwch. Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw'n benodol at adran 3.2 sy'n ymwneud â newidiadau i'r rheolau mewnfudo ac adran 3.5 sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi gan y gallant fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Wrth baratoi'r adroddiad hefyd, ystyriwyd **trafodaethau rapporteur** â staff a myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Rwy'n tynnu'ch sylw at yr uchod yn y gobaith y bydd o gymorth ichi yn y dyfodol pan fyddwch yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r portffolio addysg. Er gwybodaeth rwyf wedi anfon copi i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, cofiwch gysylltu.

Yn gywir



**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon